Wales & West Utilities

# Cynllun Datblygu'r Iaith Gymraeg

Wedi'i baratoi â chymorth Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg.

Wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Comisiynydd ar < dyddiad >



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cynnig Cymraeg

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

## Ein sefydliad

Rhwydwaith dosbarthu nwy yw Wales &West Utilities sy'n gwasanaethu Cymru a de-orllewin Lloegr. Rydym yn falch o fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd sydd wedi ymrwymo i gyflawni ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Pob dydd, mae ein tîm o fwy na 1,900 o gydweithwyr medrus ac ymroddedig yn helpu i gadw 7.5 miliwn o gwsmeriaid yn ddiogel ac yn gynnes trwy ymateb i argyfyngau nwy, buddsoddi mewn uwchraddio rhwydweithiau, a chysylltu cartrefi a busnesau newydd. Ein gwerthoedd yw sylfaen popeth a wnawn;

Rydym yn Rhoi Cwsmeriaid yn Gyntaf – rydym yn meithrin ymddiriedaeth trwy wrando a darparu gwasanaeth rhagorol

Rydym yn Cymryd Balchder – rydym yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl, gan gymryd perchenogaeth ac atebolrwydd

Rydym yn Gweithio fel Tîm – rydym yn cydweithio, yn rhannu arfer gorau ac yn cynorthwyo ein gilydd

## Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a'n cwsmeriaid

Yn Wales & West Utilities, rydym yn falch o weithredu ar draws rhanbarth lle mae'r iaith Gymraeg nid yn unig yn cael ei siarad ond yn cael ei thrysori fel rhan hanfodol o hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth gymunedol. Fel sefydliad sydd â'i wreiddiau yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, rydym yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg yn fwy na dim ond modd o gyfathrebu – mae'n symbol o berthyn, ymddiriedaeth a pharch.
Nid yw ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn unig, mae'n ymwneud â chreu diwylliant croesawgar, cynhwysol a dwyieithog sy'n adlewyrchu gwerthoedd ein sefydliad a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

Nid yw'r ymrwymiad hwn yn ymwneud â heddiw yn unig, mae'n ymwneud â'r dyfodol. Trwy hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ein sefydliad, rydym yn helpu i gynnal yr iaith am genedlaethau i ddod, tra hefyd yn gwella ein henw da gyda rhanddeiliaid, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Credwn fod cefnogi'r iaith Gymraeg yn:

- Cryfhau ein perthnasoedd â chwsmeriaid drwy ganiatáu iddynt ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith, gan wella ymddiriedaeth a boddhad.

- Adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad bob dydd ac yn ffurfio rhan allweddol o hunaniaeth leol.
- Dangos arweinyddiaeth ac uniondeb yn y ffordd rydym yn gweithredu, gan ddangos ein bod yn ymatebol i anghenion diwylliannol ac ieithyddol.
- Gwella hygyrchedd i'n gwasanaethau a'n gwybodaeth, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio rhag ymgysylltu â ni oherwydd dewis iaith.
- Cynorthwyo ein cydweithwyr sy'n siaradwyr neu'n ddysgwyr Cymraeg, gan eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i ddefnyddio eu hiaith yn y gwaith.

Fel sefydliad sydd â'i wreiddiau yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, rydym yn falch o adlewyrchu diwylliant ac iaith Cymru a sicrhau nid yn unig y caiff y Gymraeg ei pharchu ond ei dathlu.



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

## Ein Cynnig Cymraeg ni

- Gwasanaeth gohebiaeth yn y Gymraeg
- Deunyddiau gwybodaeth dwyieithog i gwsmeriaid
- Arwyddion dwyieithog ar ardaloedd gwaith
- Deunyddiau dwyieithog ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru.
- Gwasanaethau dwyieithog a gynigir ar ein gwefan drwy Recite Me

## Cyfrifoldeb

**Pennaeth Adran** – Bethan Jones (Pennaeth Pobl a Phrofiad Cwsmeriaid)
**Perchennog y prosiect** – Gwyn Thomas (Uwch Reolwr Cyfathrebu a Chwsmeriaid)
**Rheolwr/cymorth prosiect** – Emma Summerhayes (Cymorth Prosiect Pobl ac Ymgysylltu) – Prif gyswllt

## Cyfnod adolygu

Mae cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraegyn para am gyfnod o 3 blynedd. Disgwylir i chi adolygu eich Cynllun cyn diwedd cyfnod o 3 blynedd a bydd Tîm Hybu ar gael i'ch atgoffa a'ch cynorthwyo. Mae croeso i chi adolygu'r Cynllun yn fwy rheolaidd os dymunwch.

Byddwn hefyd yn disgwyl i chi adrodd yn ôl ar eich Cynllun Datblygu'r Iaith Gymraeg yn flynyddol. Bydd Tîm Hybu yn rhoi dogfen i chi i gwblhau a hwyluso'r broses.

Dylid nodi y gellir tynnu cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg yn ôl os na fyddwch yn adrodd ar weithrediad y Cynllun yn flynyddol, neu os na fyddwch yn adolygu eich cynllun o fewn 3 blynedd.

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyngweithio â chwsmeriaid** | | | | | |
| **Wyneb yn wyneb**<br>Nid oes gennym yr adnoddau staff i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i gwsmeriaid wyneb yn wyneb. | ⓪ | • Byddwn yn ychwanegu'r iaith Gymraeg fel rhywbeth dymunol at hysbysebion swyddi ar gyfer rolau sy'n delio â chwsmeriaid.<br>• Mae Adnoddau Dynol wedi cytuno bod hyn yn bosibl, a byddai'n fater i'r rheolwr recriwtio ac Adnoddau Dynol pa hysbysebion/swyddi ddylai gael y Gymraeg fel rhywbeth dymunol.<br>• Hysbysebu ar lwyfannau Cymru. | ② | Rheolwr recriwtio perthnasol Adnoddau Dynol | 2026 |
| **Gwasanaethau Teleffon**<br>Mae rhai o'n swyddogion yn gallu delio â galwadau yn ddwyieithog | ① | • Byddwn yn ychwanegu'r iaith Gymraeg fel rhywbeth dymunol at hysbysebion swyddi ar gyfer rolau sy'n delio â chwsmeriaid.<br>• Mae gennym Language Line ar gael. | ② | Rheolwr recriwtio perthnasol Adnoddau Dynol | 2026 |
| **Ateb llythyrau ac e-byst**<br>Rydym yn ateb yn y Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbyniwn yn y Gymraeg | ③ | • Parhau i ateb llythyrau ac e-byst yn y Gymraeg a hyrwyddo'r ffaith ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. | ③ | Rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid | amherthnasol |
| **Anfon llythyrau ac e-byst**<br>Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar rai prosiectau ond nid ar bob achlysur | ② | • Gallwn ychwanegu canllawiau ar gyfer unrhyw brosiect sy'n cwmpasu Cymru i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â phrosiectau buddsoddi yn cael ei chyhoeddi yn y Saesneg a'r Gymraeg. | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth | 2026-27 |

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan CYG a CLILC.<br>Yna bydd cydweithwyr yn defnyddio canllawiau pan fydd prosiectau yng Nghymru yn codi | |
| **Oes gennych chi gronfa ddata CRM?**<br>Nid ydym yn cadw gwybodaeth am ein cwsmeriaid | amherthnasol | | | | |
| **Iaith Gwaith**<br>Mae pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo adnoddau Iaith Gwaith | ③ | • Byddwn yn cyflwyno ac yn defnyddio adnoddau Iaith Gwaith ar draws y busnes. | ③ | CLILC i benderfynu pa adnoddau. | 2026/27 |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfathrebu i gynorthwyo. | |
| **Delwedd** | | | | | |
| **Enw eich cwmni neu sefydliad**<br>Nid yw ein henw yn cynnwys unrhyw iaith Gymraeg | ⓪ | • Mae'n annhebygol iawn y bydd gennym logo neu enw dwyieithog gan ein bod yn gwasanaethu Cymru a De-orllewin Lloegr. | ⓪ | amherthnasol | amherthnasol |
| **Nodwch os yw'r canlynol ar gael yn:** | | | | | |
| **Cardiau busnes**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Byddwn yn ystyried cerdyn busnes digidol a bydd opsiwn Saesneg a Chymraeg ar gael. Byddai'n gyfrifoldeb ar gydweithwyr WWU i ddefnyddio pa un bynnag sy'n briodol – yn dibynnu a ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru neu Loegr | ③ | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 2026 |
| **Papur pennawd**<br>Saesneg yn unig | ③ | • Byddwn yn parhau i ddefnyddio papur pennawd dwyieithog. | ③ | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | amherthnasol |
| **Deunyddiau marchnata – e.e. Pop-ups / Baneri / Posteri (statig a digidol)**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | ① | • Dwyieithog yn y dyfodol os wedi'i leoli yng Nghymru. Dogfen ganllaw i gael ei chreu i gynorthwyo cydweithwyr. | ③ | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth | 2027 |

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan CYG a CLILC. Cyfathrebu ac Ymgysylltu i adolygu a defnyddio canllawiau lle bo angen. | |
| **Llofnodion e-bost**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Byddwn yn cynnig y dewis i gydweithwyr gyfieithu teitlau eu swyddi ond ni allwn ei wneud yn orfodol.<br>• Byddwn yn annog defnyddio llofnodion e-bost dwyieithog.<br>• Byddwn yn ychwanegu diolch/llawer o ddiolch yn y Gymraeg – er enghraifft i'w gynnwys ar eich neges allan o'r swyddfa.<br>• Rydym eisoes yn annog defnyddio swigod Cymraeg mewn llofnodion e-bost | ③ | Cymorth Prosiect i ddatblygu canllawiau diweddaru a chyfathrebu ar gyfer llofnod e-bost | 2026 |
| **Gwisgoedd staff**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | ③ | • Rydym wedi cyfieithu gwisg weithredol | ③ | | amherth nasol |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Proffiliau cyfryngau cymdeithasol**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Mae'n debygol y gallwn wneud ein proffil yn ddwyieithog | ② | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 2026 |
| **Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | ① | • Byddwn yn cynyddu ein taflenni/cyfieithiadau i gwsmeriaid drwy greu canllawiau ar yr hyn y dylid ei gyfieithu.<br>• Ar gyfer prosiectau yng Nghymru, yn gwbl ddwyieithog | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth gan CYG a CLILC. Cydweithwyr i ddefnyddio/ dilyn canllawiau lle bo angen. | 2027 |
| **Ysgrifen ar gerbydau**<br>Cymraeg a Saesneg yn gyfartal | ③ | • Parhau i gael arwyddion yn ddwyieithog. | ③ | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | amherthnasol |
| **Arwyddion**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | ① | • Byddwn yn cynyddu ein cyfieithu drwy greu canllawiau ar yr hyn y dylid ei gyfieithu.<br>• Mae arwyddion ffyrdd yn ddwyieithog.<br>• Byddem yn adolygu pryd y caiff arwyddion eu disodli ac yn cyflwyno rhai dwyieithog. | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth | Wrth iddeunyddiau gael eu |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni’n cynnal, neu’n cynyddu’r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan CYG a CLILC. Cyfathrebu ac Ymgysylltu i adolygu a defnyddio canllawiau lle bo angen. | diweddaru |
| **Digidol** | | | | | |
| **Gwefan**<br>Mae gennym ni rai tudalennau Cymraeg ar ein gwefan | ③ | • Mae Recite Me yn golygu bod gennym ni gyfieithiad llawn ar gyfer y wefan.<br>• Rydym yn ymwybodol nad yw Recite Me bob amser yn gyfieithiad perffaith ac yn gyfyngedig o ran newidiadau y gallem eu gwneud i unrhyw wallau. Weithiau gall newid y geiriad yn Saesneg helpu â'r cyfieithu. | ③ | Tîm Cyfathrebu Allanol | amherthnasol |
| **Cyfryngau Cymdeithasol**<br>Mae pob neges yn cael ei phostio'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig | ⓪ | • Gallwn osod targed ar gyfer faint o gynnwys Cymraeg rydym yn ei gyhoeddi.<br>• Gellir creu canllawiau ynghylch a ddylid cyfieithu postiadau.<br>• Byddwn yn creu rhai templedi. | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth gan CYG a CLILC. | 2026 |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfathrebu ac Ymgysylltu i reoli. | |
| **Gwasanaethau eraill yn yr iaith Gymraeg**<br>Llysgenhadon diogelwch nwy | ① | • Ar hyn o bryd rydym yn cynnig pecyn y gellir ei lawrlwytho yn yr iaith Gymraeg i bobl ei gyflwyno eu hunain.<br>• Byddwn yn adolygu ein cynnig wyneb yn wyneb yn dibynnu ar wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. | ② | CLILC<br>Tîm CO | 2026-29 |
| **Digwyddiadau**<br>Os ydych chi'n trefnu digwyddiad, a ydych chi'n gofyn i'r mynychwyr beth yw eu dewis iaith cyn y digwyddiad, neu yn ystod cofrestru? | | | | | |
| **Dewis iaith y mynychwyr**<br>Rydym yn gofyn i fynychwyr a hoffent gyfrannu yn y Gymraeg ar gyfer rhai digwyddiadau. | ② | • Parhau â'r hyn rydym yn ei wneud<br>• Ein nod yw cael siaradwr Cymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr, hynny yw, stondin yn y Sioe Frenhinol/Eisteddfod fel y bo'n berthnasol | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth gan CYG a CLILC. | 2026 |
| **Pan fyddwch chi'n trefnu digwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd, ym mha ieithoedd mae'r canlynol:** | | | | | |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Gwahoddiadau**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Bydd gwahoddiadau yn ddwyieithog ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru. | ③ | Nodyn atgoffa i gydweithwyr gyfieithu gwahoddiadau os yw'n briodol | 2026 |
| **Ffurflenni e.e. archebu / cofrestru / gwerthusiad**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Bydd ffurflenni yn ddwyieithog – digwyddiadau Cymru yn unig.<br>• Byddwn yn ychwanegu at ofynion caffael cyflenwyr newydd | ③ | Timau Rhanddeiliaid /Cyfathrebu | 2026 |
| **Cyhoeddiadau e.e. rhaglen / pecyn mynychwyr**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Bydd canllawiau yn cael eu creu ynghylch a oes angen cyfieithu rhaglenni | ② | Cymorth Prosiect i greu canllawiau â chymorth gan CYG a CLILC. | 2027 |
| **Siaradwyr / cyhoeddiadau**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Byddwn yn agor ac yn cau yn y Gymraeg ar gyfer rhai digwyddiadau yng Nghymru. | ① | Cynhaliwr y digwyddiad | 2026-2029 |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arwyddion**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | ① | • Arwyddion dwyieithog ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru | ③ | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 2026 |
| **Baneri / pop-ups / arddangosfeydd**<br>Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg | ① | • Dwyieithog ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru.<br>• Gwneud yn rhan o BAU. | ③ | Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 2026 |
| **Staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr / cystadleuwyr**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Mae'n annhebygol y byddwn yn cyflwyno hyn. | ⓪ | amherthnasol | amherthnasol |
| **Tocynnau (system archebu tocynnau e.e. eventbrite?)**<br>Saesneg yn unig | ⓪ | • Nid yw'n berthnasol fodd bynnag fel uchod mae ein gwahoddiadau e-bost yn ddwyieithog. | ② | | 2027 |
| **Darparu cyrsiau e.e. hyfforddiant**<br>Nid ydym yn cynnig unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg ar hyn o bryd. | ⓪ | • Byddwn yn cyfeirio at gyrsiau ac adnoddau iaith Gymraeg | ① | Cymorth Prosiect i ddatblygu gyda Thîm L&D. | 2026 |
| **Datblygu'r gweithlu** | | | | | |

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Recriwtio staff a gwirfoddolwyr**<br>Nid ydym yn recriwtio staff ar sail sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd. | ⓪ | • Byddwn yn ychwanegu'r Gymraeg fel dymunol i hysbysebion swyddi priodol (sy'n wynebu cwsmeriaid, cyfathrebu ac ati). | ② | Rheolwr recriwtio perthnasol Adnoddau Dynol | 2026 |
| **Hysbysebu swyddi gwag**<br>Mae ein hysbysebion yn y Saesneg | ⓪ | • Bydd gennym hysbysebion swyddi dwyieithog ar gyfer rolau perthnasol. | ② | Rheolwr recriwtio Adnoddau Dynol | 2026 |
| **Cofnodi sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu**<br>Nid ydym yn cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ein swyddogion | ⓪ | • Gall cydweithwyr ddarparu'r wybodaeth hon ar sail hunanwasanaeth gwirfoddol yn ein system AD, nid ydym yn gwneud yr wybodaeth hon yn orfodol. | ② | Cydweithwyr WWU | 2027 |
| **Hysbysu eich gweithlu am eich gwasanaethau iaith Gymraeg.**<br>Nid oes gennym unrhyw weithdrefn ar waith | ⓪ | • Byddwn yn cyflwyno Cynllun Iaith a chynllun datblygu wedi'u diweddaru. Byddwn yn hysbysu cydweithwyr unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi.<br>• Cyfathrebiadau rheolaidd â chydweithwyr i'w hatgoffa o'n hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg | ③ | Cymorth Prosiect i ddatblygu cynllun cyfathrebu â chymorth gan y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu. | 2026 |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol

| Eich darpariaeth ar hyn o bryd | Lefel | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.<br>Sut fyddwn ni'n cynnal, neu'n cynyddu'r lefel hon o ddarpariaeth?<br>Beth yw'r dangosyddion perfformiad? | Lefel darged Blwyddyn 3 | Pwy sy'n gyfrifol? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Annog partneriaid ac aelodau i ddarparu Gwasanaethau Cymraeg**<br>Nid ydym yn ystyried y Gymraeg wrth weithio gyda phartneriaid nac aelodau. | ⓪ | • Mae rhai o'n darparwyr allanol yn cynnig cyfieithu mewnol.<br>• Lle bo'n briodol, chwilio am gyflenwyr a all gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg, hynny yw, hwyluswyr allanol | ② | Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 2026 |
| **Dysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg**<br>Rydym yn cynorthwyo ein swyddogion i ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith | ⓪ | • Byddwn yn cyfeirio at gyrsiau ac adnoddau iaith Gymraeg. | ① | Cymorth Prosiect | 2026 |



Dosbarthiad Diogelwch: Mewnol